Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD | GORFFENNAF/AWST 1974 | RHIF 12

CAERDYDD YN ESTYN CROESO

Mae gweinidogion ac offeiriaid Caerdydd wedi mentro trefnu i ddeg-ar-hugain o blant, rhwng deuddeg a phedair-ar-ddeg oed, i ddod allan o helbulon Gogledd Iwerddon i fwrw pythefnos o wyliau yn y Brifddinas ddiwedd mis Awst.

Menter yw hyn yn seiliedig ar yr hyder y cawn deuluoedd o blith yr eglwysi i letya'r plant, ac y cawn gefnogaeth ariannol o bob cyfeiriad posibl i dalu am eu cludo o'r Iwerddon i'r Rhws a 'nol, ac am logi bws i'w cyfarfod ac i'w cymryd ar deithiau yn ystod eu arhosiad. Mae'r brodyr fu'n trefnu yn bwrw y bydd angen £500, a bydd rhai o'r eglwysi'n cyfrannu £50, a gobeithir cael tanysgrifiadau oddi wrth unigolion ac efallai cwmniau masnach yn y ddinas.

Bydd y gymwynas fach hon yn beth da, nid yn unig i'r eglwysi ond i Gaerdydd yn gyffredinol, a phwy a wyr na fydd hyn yn gychwyn i fwy o weithgarwch o'r natur hŵn. Mae cydymdeimlad â diodd-efwyr Gogledd Iwerddon yn gyffredinol, ac mae gweddiau'r eglwysi wedi para'n gyson, bellach dyma un ffordd fechan o roi ffurf weledig i'r cydymdeimlad ac i'r gweddiau.

Plant fydd y rhain o deuluoedd Pabyddol a Phrotestannaidd, ac wrth eu cynnull i deithio gyda'i gilydd, gobeithiwn y bydd y weithred yn arwydd o'r awydd a'r ewyllys i'w danfon allan ar daith eu dyfodol fel cyd-deithwyr a chyd-ddinasyddion, ble fydd yr ysbryd Cristnogol yn gryfach ac yn ddyfnach na'r ffiniau sectyddol. 'Yn gymaint ag y gwnaethoch i un o'r rhai bychain hyn, i mi y gwnaethoch'. Gwyddom yn ddigon da nad yma y mae datrys problem eu mam-wlad, ond fe fydd blasu mymryn o letygarwch a diogelwch dros dro yng Nghymru yn fodd iddynt ymlacio mewn awyrgylch cydnaws.

Wrth feddwl am drafferthion Iwerddon a gobeithio am ei dyfodol, daw adnod odidog i gof am y ddinas adferedig - "Hen wŷr a hen wragedd a drigant eto yn heolydd Jerusalem, a phob gwr a'i ffon yn ei law oherwydd amlder dyddiau. A heolydd y ddinas a lenwir o fechgyn a genethod yn chwarae yn ei heolydd hi....os anodd yw hyn yn y dyddiau hyn yng ngolwg gweddill y bobl hyn, ai anodd fyddai hefyd yn fy ngolwg i? medd Arglwydd y lluoedd".

Dyna freuddwyd y clywsom ei thebyg gan ferthyr cyfoes a haerodd 'mae gen' i freuddwyd', hyd oni wireddir y freuddwyd, nac anghofiwn ddydd y pethau bychain! Maddeuwch i'ch gohebydd am fod mor bregethwrol, ond dyna fe, pregethwr yw e', ac os nad yw e'n dechrau gyda thestun, mae e'n siwr o ddiweddu ag un!

Cadair Morgannwg

Cynhaliwyd cyfarfod ym Methel, Capel yr Annibynwyr Cymraeg Penarth ar nos Fercher Gorffennaf 3ydd i drafod y posibilrwydd o gynnal Eisteddfod o faint ac urddas ym Mro Morgannwg yn 1975. Cafwyd trafodaeth fanwl ac ystyriol ac aethpwyd ati o ddifri i drafod yr holl bosibiliadau.

Penderfynwyd galw cyfarfod arall yng Nghapel Bethel ar Fedi lleg i drafod y posibiliadau ymhellach. Fe wneir apel ar holl gymdeithasau'r Fro i anfon cynrychiolwyr fel y gellir cael digon o bobl i wasanaethu ar y pwyllgorau angenrheidiol.



Hywel D. Roberts yn Ymddeol

Ar ôl dros ddeugain mlynedd ym myd Addysg fe ymddeolodd Hywel D. Roberts o'i swydd fel Pennaeth Adran Addysg Coleg Addysg Cyncoed.

Daethai i'w swydd yn y brifddinas ddeunaw mlynedd yn ôl, gyda thoreth o brofiad dihafal fel athro, prifathro a gweinydd-wr y tu cefn iddo. Bydd cenedlaethau o'i gyn-fyfyrwyr yn cofio am ei gymwynasau parod a'i ddyngarwch crefyddol ac yn dymuno iddo flynyddoedd lawer o ddedwyddwch.

Bu'n ŵr blaenllaw mewn llawer agwedd o fywyd y genedl a chyfrannodd yn hael o'i amser a'i ddawn i wasanaethu Cymru. Yn un o aelodau a gwersyllwyr cynnar yr Urdd, bu'n gefn a cholofn i'r mudiad mewn eisteddfod, gwersyll, Adran a Chyngor. Cofir am ei gyfraniad i dwf yr Ysgolion Cymraeg fel prifathro Lluest ac yn ddiweddarach Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Er iddo wasanaethu Addysg yng Nghymru drwy ei yrfa rhaid cofio iddo ddal swydd bwysig fel Swyddog Addysg yn Wigan.

Nid oes ball ar ei ddiddordebau, ac ni cheir maes, o arddio i lenydda, neu o gerddoriaeth i ofal am yr amgylchedd na fydd ganddo ddiddordeb byw ynddo.

Tebyg mai ei fawredd fel Cymro ac un sy'n caru ei wlad yn angerddol a'i gwna hefyd yn rhyngwladwr brwd. Ni fyddai Eisteddfod Gydwladol Llangollen yr un heb ei lais soniarus a'i ddull cartrefol o gyflwyno. Yn nyddiau cynnar Teledu Annibynnol bu yn arloeswr rhaglenni plant ac yn un o brif arweinwyr rhaglenni ysgolion.

Bydd yn symud yn ôl i fro ei eni yn Nyffryn Nantlle ar ol blynyddoedd llawn a phrysur. Nid un i anghofio'r graig y naddwyd ef ohoni yw Hywel D. Roberts. Hir oes iddo ef a'i briod Glennis a phob dymuniad da i'w deulu.

Hywel Jones

CNOC! CNOC!

LLYTHYRAU

Annwyl Mr Golygydd,

Gan fod Cwynfryn yn rhy swil a Garej Lloyd yn methu sbelio dyma fi'n gyru (un 'r' ta dwy sy na yn gyrru?) atoch chi i son am y llyfr newydd 'dwi 'di sgwennu. Llyfr efo casgliad o jocs a sgetchis a ballu - petha nes i sgwennu'n spesial ar gyfer y rhaglen "Helo Sut Dach Chi" - fydd hwn. Mi fydd na lot o betha eraill yno fo hefyd - gewch chi weld drosoch ych hun os prynwch chi o am 50c. Roeddwn i wedi meddwl sgwennu fy hunangofiant a mi ddudodd Mr Cwynfryn a Mr Garej Lloyd wrtha i y basa hynny'n iawn ond i mi gadw at y testun - i gadw fo i fi'n hunan! Ac felly mi fydd raid ichi roi i fyny efo'r ail orau - ond dyna fo - dim ond gobeithio fyddwch chi'n licio fo - mi ddylia fod ar werth erbyn y Steddfod. Hwyl am rwan

Yr eiddoch yn ddiniwad

Hiwbyrt Huws

O.N. Peidiwch a dangos y llythyr yma i Cwynfryn a Garej Lloyd - ma nhw wedi helpu peth efo'r llyfr hefyd ond fasa nhw ddim wedi medru gneud dim heb fy help i!!

16 Gordon Rd,
Y Rhath,
Caerdydd.

Annwyl Syr,

Rwyf yn aelod o gymdeithas newydd yng Nghaerdydd o'r enw, 'Cardiff Community Concern Information Services' (55 Heol Siarl). Pwrpas y gymdeithas yw rhoi hysbysrwydd a chymorth i bobl. Fel rhan o waith y gymdeithas yr wyf yn paratoi cyfarwyddiadur o fywyd Cymraeg Caerdydd a'r cylch.

Fe fydd tri rhan i'r cyfarwyddiadur -

1. Hysbysrwydd yn Gymraeg am y ddinas ee cyfeiriadau llywodraeth leol, ysbytai etc.

2. Rhestr o gyfeiriadau ysgolion, capeli, tafarnau, cymdeithasau Cymraeg etc.

3. Hysbysrwydd (yn Saesneg) am ganolfannau dysgu Cymraeg, siopau i brynu llyfrau Cymraeg, ac o ganolfannau lle gellir defnyddio'r Gymraeg ar ol dysgu'r iaith.

Byddwn yn dra diolchgar petai darllenwyr Y Dinesydd yn cysylltu o mi i roi unrhyw fanylion am gymdeithasau etc fel y gellir cyhoeddi'r cyfarwyddiadur cyn bo hir. Hoffwn gael manylion o Gaerffili a'r Barri hefyd.

Yn gywir,

Lyn Owen.

Rhif Ffôn : 395466

Un o'r cartwnau fydd i'w gweld yn y llyfr "Helo Sut Dach Chi".

Cyhoeddir y llyfr "Helo Sut Dach Chi?" gan Wasg Dyfed Pris 50cn.

Huw Ceredig, Hywel Gwynfryn a Dewi Morris yn y rhaglen **Piparbop**, *BBC Cymru*

Cysegru swydd a swyddog

Bore Sul, Mehefin 16, yn Eglwys Annibynnol Minny Street, cynhaliwyd Gwasanaeth o Addoliad ac Ymgysegriad o dan arweiniad Y Parchedig D.T. Evans, M.A., B.D., yn ei swydd fel Caplan i Gadeirydd newydd Cyngor Sir De Morgannwg.

Fel y gŵyr Cymry Caerdydd yn dda, Cadeirydd cyntaf y Sir yw y Cynghorydd Emyr Currie Jones, Ll.B., a daeth llu o gyfeillion ynghyd, yn cynnwys yr Uchel Siryf, Yr Arglwydd Heycock (yn cynrychioli Sir Gorllewin Morgannwg), dau Aelod Seneddol a llu o gynrychiolwyr eraill a phrif swyddogion y byd cymdeithasol.

Darllenwyd y llith yn Gymraeg gan y Cadeirydd ei hun a'r llith yn Saesneg gan y Cynghorydd, Y Parch. Robert Morgan, B.A., Ficer Tre-lai. Arweiniwyd y gynulleidfa mewn gweddi gan Y Parch. Ddr. Gwilym ap Robert, M.A., a phregethodd Y Parch. D.T. Evans ar le a chyfrifoldeb y Cristion mewn gwasanaeth cymdeithasol. Cafwyd datganiad gan Mr Iwan Guy gyda'i frawd yn cyfeilio, a gweithredodd Mr Ieuan Jones wrth yr organ i'r gwasanaeth.

Côt o baent

Roedd Neuadd Eglwys Dewi Sant yng nghanol y ddinas yn galw am gôt newydd o baent ers tro byd, ond roedd amcangyfrif am gost y gwaith yn codi braw ar y Cyngor Eglwys, a phan awgrymodd y ficer yn gynnil y gellid osgoi'r broblem drwy dorchi llewys, aeth pawb ati gyda brwdfrydedd i gynnig syniadau.

Diwedd y gân fu i nifer o aelodau gytuno i ddod nawr ac yn y man yn ystod pythefnos waith i newid gwedd y neuadd yn gyfangwbl - ac fe fu'r trefniadau yn hynod lwyddiannus. Yn ystod Mehefin y bu, ac roedd rhywrai yno bob nos (ac eithrio'r Sul) yn glasu'r nenfwd, ac yn cuddio'r muriau â lliwiau carreg a magnolia. Roedd peintiwr proffesiynol, Mr Thomas, wrth law i sicrhau fod pob un yn trin ei frwsh a'i baent yn iawn, ac roedd yntau mor frwd â neb gyda'i arfau.

Ond rhaid i'r dynion gyfaddef i un peth fynd yn drech na nhw! Doedden nhw ddim gystal gweithwyr gyda'r brwsh sgwrio'r llawr ar derfyn y gwaith ag yr oedden nhw gyda'r brwsus paent, ond drwy lwc, fe ddaeth y gwragedd i'r adwy i wneud gwyrthiau ar eu glin-iau, ac mae'r Neuadd yn awr yn edrych yn hynod o ddeniadol.

Bardd o Donyrefail

Cerddi a gabolwyd yn llythyrdy Pontcanna 'chydig eiliadau cyn y post a sicrhaodd yr ail wobr i Vaughan Hughes, aelod o dîm Y Dydd, yng nghystadleuaeth y goron yn steddfod Pontrhyd fendgaid. Llwyddodd i wneud cystal argraff ar y beirniaid Dafydd Rowlands, fel y rhoddwyd gwobr arbennig o ddeugain punt iddo. Yn ôl amodau'r gystadleuaeth gofynnwyd am ddilyniant o ddeg o gerddi ar unrhyw gyfnod o hanes Cymru. Dewisodd Vaughan ganu am y chwedegau- ei gwleidyddiaeth a'i diwylliant. "Plentyn y chwedegau ydw i" medd Vaughan "roeddwn i'n deall y chwedegau" meddai.

Yn wir dyma'r tro cyntaf, medd Vaughan iddo gyfansoddi cerddi o unrhyw werth ers y chwedegau, ac ers iddo symud i Gaerdydd o'i gartre ym Maenaddwyn Sir Fon. "Ond dyna fe" medd Vaughan "yn Nhonyrefail y cyfansoddwyd y cerddi yma nid yng Nghaerdydd, ac mae 'na wahaniaeth pwysig".

Coleg y Brifysgol Caerdydd

ADRAN EFRYDIAU ALLANOL

Rhai cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd a'r cylch yn ystod gaeaf 1974/5

CAERDYDD

Archaeoleg Diwydiannol Cymru. *10 darlith. D. Morgan Rees/W.G. Thomas*

Dysgu Cynganeddu. (12) *T. Gwyn Jones.*

Prif Oesoedd Pobl Cymru (10) *Donald Moore/Ilid Anthony.*

Wyneb Cymru: ei ystyr a'i hanes. (10) *D.A. Bassett/J. Myrfyn Williams.*

Astudiaethau Gwerin. (10) *Aelodau Staff Amgueddfa a Werin Cymru, San Ffagan.*

Gwerthfawrogi Llenyddiaeth. (20) *Wynne Lloyd.*

Croesi'r Bont. (13)
(Cwrs pellach i ddysgwyr Cymraeg) *Wynne Lloyd.*

Hanes Athroniaeth - Descartes a Locke. (20) *Meredydd Evans.*

Grwpiau Trafod. *Chwe chyfarfod i drafod llyfrau Cymraeg mewn gwahanol rannau o'r ddinas.*

EFAIL ISAF

Llenyddiaeth a Hanes Cymru. (10)

CAERFFILI

Llenyddiaeth Gymraeg Gyfoes. (10) *W.J. Jones.*

PENLLYN

Cerddi'r Werin a Chynnyrch Llenyddol Dau Gefnder (20) *Meredydd Evans.*

Anfoner am fanylion pellach at Meredydd Evans, Adran Efrydiau Allanol, 38 Heol y Parc, Parc Cathay, Caerdydd. Gellir gwneud hyn o ganol Awst, ymlaen. Os carech gael y Rhaglen-Gyrsiau am y flwyddyn amgaewch 9c ar gyfer cludiad.

CYMDEITHAS YR HENOED:

Gwaelod y Garth

Cynhaliwyd cyfarfod o dan nawdd yr adran uchod yn Neuadd y Pentre Prynhawn Dydd Mercher Gorffenaf 3edd. Yn asbenoldeb y Cadeirydd Mr W.J. George Y.H. Llywddwyd y cyfarfod gan Mr John Charles Davies a cyfeiriodd at y ffaith hapus fod Mr George yn gwella yn dda iawn ar ol cael triniaeth tost o dan law'r llawfeddyg. Cyfeiriodd hefyd at Mr Charles Lewis aelod arall or gymdeithas roedd wedi bod yn wael iawn or pnewmonia ar newydd da amdano yntau hefyd.

Y siaradwr gwadd oedd Mr W.J. Thomas, Llandaf. gynt or B.B.C. Caerdydd ac hyrfyd oedd gwrando arno yn son am rai or profiadau hapus a digri oedd wedi digwydd iddo pan wrth ei waith. Cadwodd ddiddordeb y gynylleidfa am rhyw ddeugain munud ar teimlad oedd y dylem ei gael i siarad a ni eto nes ymlaen. Dyma yr ail dro iddo fod gyda ni fel cymdeithas. Roeddem fel Adran wedi danfon croeso i Adran Ffynnon Taf i ymuno a ni yn y cyfarfod yma a hyfryd o beth oedd gweld llawer wedi dod atom i fwynhau y wledd a gawsom.

Diolchwyd i Mr Thomas ar y diwedd gan Mr Taylor un o'r ymwelwyr ac fe gyfeiriodd at y modd hyfryd roedd Mr Thomas wedi trosglwyddo ei anerchiad ini ar yr un pryd yn diolch am y gwahoddiad i ymuno a ni.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Ddydd Mercher Gorffennaf 17 pan y disgwylir Mrs Enid Watkin Jones, Pentyrch i annerch y cyfarfod.

John Charles Davies
Rose Cottage
Gwaelod y Garth
Ffôn : Ffynnon Taf 810826

Mae GWASG Y DREF WEN am apwyntio

GOLYGYDD

Hanfod y gwaith diddorol hwn yw golygu a pharatoi llawysgrifau at eu cyhoeddi fel llyfrau, gan sicrhau bod y cyflwyniad yn dda o bob safbwynt a'r iaith yn hollol gywir. I raddau mawr mae'r Wasg yn arbenigo ar gyhoeddi llyfrau i blant, gan geisio cadw'r safonau uchaf bob amser. Mae'r gwaith i gyd yn Gymraeg.

Cymwysterau angenrheidiol: dychymyg byw; gwybodaeth gyffredinol eang; y gallu i sgrifennu Cymraeg rhywiog; gwybodaeth fanwl o ramadeg Cymraeg.

Cysyllter â Roger Boore, Gwasg y Dref Wen, 6 Rookwood Close, Llandaf, Caerdydd, ffôn Caerdydd 561530.

Efrydiau Allanol

Gobeithia Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd, gael ymateb da i'r cyrsiau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod gaeaf 1974/5. Ceisiwyd darparu cyrsiau mewn nifer o feysydd gwahanol a bwriedir *dathlygu'r* ddarpariaeth os bydd galw am hynny. Er enghraifft, os oes rhai o ddarllenwyr Y DINESYDD a garai weld ffurfio dosbarthiadau mewn *Gosod ar gyfer Cerdd Dant*, dyweder, neu *Seicoleg Gyfoes*, neu *Hanes a Diwylliant y Celtiaid* carai'r Adran glywed oddi wrthynt. Neu dichon y dymunai rhai Cymru astudio peth ar hanes Cerddoriaeth yn gyffredinol, neu, o bosib, ddatblygiad Celfyddyd. Y mae'r Adran mewn bod i geisio cyfarfod â gofynion pobl sy'n awyddus i ehangu eu gorwelion ac i gyfoethogi eu profiad a hynny, yn y cyswllt arbennig hwn, trwy gyfrwng y Gymraeg. Croesewir sylwadau ac awgrymiadau darllenwyr y papur hwn.

O ganol mis Awst ymlaen bydd Rhaglen-Gyrsiau'r Adran ar gael ac fe'i hanfonir drwy'r post ar daliad o Naw Ceiniog. Neu, os digwyddwch fynd heibio'r swyddfa yn Heol y Parc gellwch alw i mewn yno amdani. Y mae'r manylion llawn am gyrsiau i'w cael yn y Rhaglen honno.

MERLYN EVANS
1910 - 1973

gan GARETH LLOYD WILLIAMS

Un o blant Caerdydd oedd Merlyn Evans - yn enedigol o Landâf ond fe symudodd ei deulu i fyw i Glasgow pan oedd o'n dair mlwydd oed. Aeth i Goleg Celf Glasgow pan oedd yn 17eg oed a dechrau arlunio mewn dull haniaethol - y dull y glynodd wrtho fwyaf weddill ei yrfa. Ag yntau'n 21ain oed enillodd ysgoloriaeth deithio a chrwydrodd drwy'r Almaen, Ffrainc, Denmarc a Sweden gan ddod i gysylltiad â gweithiau arlunwyr fel Klee a Kandinsky. Ar ôl dychwelyd o'r daith honno bu'n fyfyriwr yn y Coleg Celf Brenhinol ac erbyn 1936 roedd peth o'i waith yn hongian mewn Arddangosfa Swrealaidd Ryngwladol yn Llundain.

A rhywle yng nghyffiniau'r Swreal/Haniaethol y gorwedd ei brif weithiau. Ond er mai haniaethol yw ei ffurfiau mae modd canfod ynddyn nhw'r ffurfiau cysefin cyfarwydd o fyd natur sydd o dan yr haniaethol - ffurfiau yw'r rhain sy'n amrywio o'r garw a'r miniog i'r llyfn a'r esmwyth. Ac ambell waith, pan fo'r garwedd yn amlwg daw dwyster ei liwiau - brown, gwyrdd, glas a choch i liniaru'r onglau nes gadael effaith o gyfanwaith cynhesol.

Gwelir enghraifft o hynny yn ei ddarlun "Paesaggio Tragico" (1945) Darlun a baentiwyd yn ystod ei gyfnod o wasanaeth milwrol yn yr Eidal. Seiliwyd y darlun hwn ar olygfa gerllaw Ravenna ac mae'r lliwiau nodweddiadol Eidalaidd yn amlwg - y brown cochaidd a'r gwyrdd llwydaidd.

Ond er mor gynhesol yr ymddengys llawer o'i ddarluniau, mae ynddyn nhw sumbolau o ddioddefaint a thrueni ac ofnadwyaeth. Oherwydd, ar wahan i fod yn arlunydd, roedd Merlyn Evans hefyd yn fardd - a bardd oedd yn ymwybodol iawn o gyflwr trueni trigolion y tridegau pan oedd diweithdra a thlodi a chyni yn rhemp a phan oedd y cyffro gwleidyddol Naziaidd, Stalinaidd a Ffasgaidd yn gynnwrf yn y gwledydd. Ac mewn ffordd mae ei ddau gyfrwng mynegiant wedi'u plethu'n annatod drwy'i gilydd. Os yw ei ddarlun "Chess Players" - fel cerdd - yn ddatganiad sumbolaidd o'r cytundeb Nazi-Sofietaidd fel dau chwaraewr gwyddbwyll yn cynnal 'gêm' dros ffawd y byd - y mae ei gerdd "The Street" yn llawn o ddelweddau gweladwy:

"The street murmurs with a sombre melancholy. The illumination is divided. The lamps are blue and orange. Like an obelisk in the distance the white tiles of a factory wall present a sharp and expressive tabula rasa."

Ac felly nid arddangosfa o ddarluniau i'w mwynhau yn unig am eu hargraff weladwy yw hon ond casgliad o ddarluniau sy'n werth eu hastudio a'u deall wrth geisio ymgyfarwyddo â theithi meddwl y bardd-arlunydd a'u cyfansoddodd nhw.

Ac er fod y cyflwyniad i'r arddangosfa'n dal allan fod Merlyn Evans wedi osgi dylanwadau uniongyrchol unrhyw Symudiad a'i fod wedi agor ei gŵys ei hun, mae'n anodd mynd o gwmpas yr arddangosfa heb weld rhywfaint o Bosch a Dali a Klee yn y darluniau ac wrth edrych ar un fel "Untitled" (1966-67) daw rhai o ddarluniau Andy Warhol, hyd yn, oed i'r meddwl.

Teimlad arall a geir wrth fynd o gwmpas yr Arddangosfa a sgwrsio â rhai sy'n gofalu amdani yw mai ychydig yw'r nifer sy'n mynd i'w gweld. Mae'r arddangosfa ar agor yn yr Amgueddfa Genedlaethol tan Awst 11eg - digon o gyfle rhwng hwn a hynny i fynd i'w gweld tra bydd hi'n dal yng Nghaerdydd. Wedi'r cwbwl - un o blant Caerdydd oedd Merlyn Evans.

The Chess Players - **Merlyn Evans**

LLORIO LOWRI

Llongyfarchiadau cynnes i Lowri Morgan (Radyr gynt) ar ei dyweddiad a Sean O'Driscoll (Iwerddon) yn ddiweddar. Mae'r Dinesydd yn addo anfon gohebydd 'arbennig' i'r briodas.

SYMUD TY

Dymuniadau gorau i Mr Tom Evans (Prifathro Ysgol Bryntaf) a'i deulu ar symud o Gaerdydd i Benarth i fyw.

Yn Eisiau

TEIPYDD/CLERC

amser llawn neu ran amser yn Swyddfa Plaid Cymru, 8 Heol y Frenhines, Caerdydd, Swydd ddiddorol yng nghanol yr ymgyrch am ryddid i Gymru.

Ceisiadau drwy lythyr i Mr. Dafydd Williams, yn y cyfeiriad uchod, neu ffoniwch Caerdydd 31944.

Dillad Plant

Detholiad gwych
Dewis helaeth
Dillad at bob achlysur
ysgol - chwarae
cymanfa ganu - popeth
Dillad gan
HIGHLIGHT CASUALS; WEEKEND SPORTS-WEAR; PAULA LEE; SHAMROCK; SALLY PIGTAILS
a llawer i un arall.

Galwch i weld

Dan Evans

Y BARRI 4242

NEWYDDION CWM RHYMNI

U.C.A.C.

Yn ddiweddar etholwyd swyddogion newydd cangen Caerffili o U.C.A.C.

Cadeirydd - Randal Isaac
Is Gadeirydd - Lynette Jones
Ysgrifennydd - Elfan Jones
Trysorydd - Dorothy Morgan

FFAIR HAF

Yn ddiweddar cynhaliwyd Ffair Haf Ysgol Gymraeg Caerffili, ac unwaith yn rhagor bu'n llwyddiant rhagorol - a'r tywydd hefyd yn ffafriol. Cychwynwyd y gweithgareddau gyda band pres Bedwas yn cerdded drwy'r dref. Gwnaethpwyd £250 o elw.

CYMANFA GANU

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu i ysgolion Cymraeg y cylch yng nghapel Hanbury Rd, Bargoed dro'n ol. Daeth plant o Fargoed, Senghennydd, Preseli, Rhymni, Rhisca a Chwmbran i'r gymanfa a gynhelir er mwyn rhoi cyfle i'r plant i ymgydnabod a rhywbeth traddodiadol Gymreig.

Yr arweinydd oedd Mrs Eirlys Roberts, Bedlinog, Elfan Jones wrth yr organ. Y Llywydd oedd Mrs Suzy Williams, Bargoed (sydd wedi bod mor weithgar yn y cylch).

PELDROED

Ychydig sy'n gwybod mae'n debyg fod yna gystadleuaeth arall wedi bod yn cyd redeg a Chwpan y Byd yng Ngorllewin yr Almaen - sef cystadleuaeth peldroed rhwng mudiadau ieuenctid Ewrop. Roedd yna dim o Gymru yn cystadlu a phum aelod o'r tim yn ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Bargoed Gwnaeth y tim Cymreig yn arbennig o dda o ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth, Gorllewin yr Almaen yn ail a Denmarc yn gyntaf. Methodd gohebydd arbennig Y Dinesydd yn y gemau a gweld son am dim Lloegr.

TRIP HAF

Bu Cylch Diwylliannol Caerffili o amgylch Bro Morgannwg yn ddiweddar mewn bws. Cafwyd diwrnod arbennig o dda. Trefnwyd y daith mewn cyd weithrediad a'r Adran Efrydiau Allanol (Meredydd Evans) a chafwyd sylwadau diddorol ar y gwahanol leoedd yr ymwelwyd a hwy gan Dr Ceinwen Thomas. Ymwelwyd a'r Bontfaen, Llandochau, Sain Dunwyd a Bethesda'r Fro lle canwyd emyn.

MIL O FILOEDD

Sefydlwyd Pwyllgor i sicrhau cyfraniad o'r cwm tuag at Gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol mewn noson goffi yn Neuadd y Parc yn ddiweddar. Diddanwyd y gynulleidfa gan gor penillion Tannau'r Twyn a Mary Rhiannon (trombon), Ann Davies a Dewi ap Rhobert. Yn dilyn anerchiad gan T.W. Thomas Pentyrch pender-fynwyd yn unfrydol sefydlu cronfa leol. Etholwyd y swyddogion lleol -

Cadeirydd - Cyn-ghorydd H.P. Richards
Ysgrifennydd - Gareth Roberts
Trysorydd - Mr Ken Jones, Banc y Midland, Caerffili.

Etholwyd nifer o gynrychiolwyr o wahanol rannau'r Cwm. Derbyniwyd rhodd o £1 oddi wrth Americanwr sy'n treuio blwyddyn yng Nghaerdydd. Derbyniwyd £40 o'r casgliadau.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Miss Ann Davies, merch Mrs Moyra Davies, Prifathrawes Ysgol Gymraeg Senghennydd, ar raddio mewn Cerddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor (Dilynodd ei chwrs drwy gyfrwng y Gymraeg). Mae'n mynd ymlaen i ddilyn cwrs yng Ngholeg Goldsmiths, Llundain. Yn ystod yr haf bydd yn chwarae'r delyn yng Ngwesty'r Boars Head, Caerffili.

YSGOL WEITHGAR

MAE Ysgol Gatholig y Santes Helen, Abertridwr, wedi bod yn flaenllaw iawn yn cefnogi gweithgareddau Cymraeg yr ardal. Buont yn arloesi eto yn ddiweddar gyda dathliad o'r Offeren Sanctaidd drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Eglwys Gatholig, Caerffili. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Tad Evans, Caerdydd, ac fe gymerwyd rhan gan nifer o blant yr ysgol.

PLAID CYMRU. NOSON GOFFI.

Dymuna Anne a Bob Roberts ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth ynghyd yn eu cartref yn 81 Heol Isaf, Radyr ar y 14eg o Fehefin i Noson Goffi i Blaid Cymru. Roedd yn noson braf, a hyfryd oedd gweld cymaint yn cymdeithasu, rhai o gwmpas y stondin 'Dewch a Phrynwch', rhai gyda Miss Nans Jones a llenyddiaeth y Blaid, a'r gweddill yn mwynhau sgwrs ym mwynder y noson ar y lawnt. Cafwyd ddwy raffl - a'r enillwyr balch oedd Mrs Minwel Tibbott a Mrs Heulwen Jones. Gwnaed elw o £46 ar y noson, ac aeth hanner y swm yma i Gangen Castell Coch a'r hanner arall i Bwyllgor Merched y De Ddwyrain. Diolch yn fawr iawn.

MERCHED Y WAWR, CREIGIAU

Daeth pwyllgor newydd yr uchod ynghyd Nos Lun Mehefin 24ain i drafod lleoliad a rhaglen y Gangen am y flwyddyn nesaf. Cafwyd noson weithgar a diwyd a'r penderfyniad oedd i gwrdd yng Ngwaelod y Garth am y flwyddyn nesaf.

Felly mawr hyderwn y daw llawer o aelodau hen a newydd i'n cyfarfodydd. Gyda lwc, fe fydd yna Raglen diddorol ac amrywiol ar eich cyfer. Mrs Minwel Tibbott fydd yn ein diddori ar y noson gyntaf sef Medi 12fed. "Cofiwch y dyddiad a dewch yn gryno a cewch noson wrth eich bodd.

Anne Roberts
81 Heol Isaf
Radyr
Ffôn : Radyr 842293

RHEOLWR Y BBC

Dymuniadau da a rhwydd hynt i Owen Edwards ar gychwyn ei waith fel Rheolwr y BBC yng Nghymru ar Orffennaf laf.



YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref.....

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

Ni yw'r arbenigwyr

Sleep & Light Centre

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos
9 a.m. - 5 p.m.

NOSON HWYR - NOS IAU HYD
7.30 p.m.

NI FYDD RHIFYN AWST O'R DINESYDD.

ATGOFION DYSGWR

Hynafgwr mwyn o werinwr ydy George Player sydd wedi dysgu Cymraeg. Fe'i ganwyd yng Nghaerdydd yn Splott ar droad y ganrif a gwelodd ar hyd ei oes newid mawr yn ei fro a'i ardal.

Bu'n ddyfal weithio ar ei Gymraeg er na chafodd fawr o ysgol pan oedd yn yr oed i fanteisio ar hynny.

Erbyn hyn fe basiodd Lefel O a Lefel A ac mae'n cyfadde'n rhydd ac yn rhwydd mai'r Gymraeg sy'n rhoi blas ar ei fywyd.

Drwy gyfrwng geiriaduron a llyfrau gramadeg yr aeth ati i ddechrau ond nawr mae e'n medru dal ei ben yn hyderus mewn unrhyw gwmni lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng boed sgwrs pen stryd neu drafodaeth ar bwnc. Fuodd e erioed mewn eisteddfod na gŵyl, welodd e erioed mo'r ardaloedd hynny sy'n alwedd i'r diwylliant a fabwysiadodd ond mae'n cyfri ei hun yn gyfoethocach wr oherwydd ei wybodaeth ar ysgrifau, nofelau a llyfrau hanes Cymraeg.

Ei hoff awdur ydy Daniel Owen ac mae'n braf gwrando arno'n cynhesu wrth son am y cymeriadau sy'n hoff ganddo - Wil Bryan, Tomos a Barbara, a Mari Lewis.

Mae'r traddodiad crefyddol Cymraeg yn apelio'n fawr ato a chaiff foddhad mwy na'r cyffredin bellach wrth gymryd rhan mewn Gwasanaeth Cymraeg.

Mae'n ysbrydiaeth i'w gael mewn dosbarth. W.L.

Un o'm hoff bethau pan oeddwn i'n fachgen oedd nofio.

Mae'n rhyfedd sut mae pethau a ddigwyddodd amser maith yn ôl yn ffrydio drwy'r meddwl yn eglur a ffres, tra, ar yr un pryd, ni ellir cofio rhai pethau a ddigwyddodd ond ychydig ddyddiau ynghynt. Dyna ydy henaint mae'n siŵr.

Roedd gan ddŵr pob amser ryw swyn i mi ac ni wastraffwn i fyth gyfle i chwarae wrth afon, llyn, neu gamlas, neu i sefyll am oriau yn sylwi ar y bechgyn mawrion yn nofio, a finnau ar yr un pryd yn dyheu am y dydd pryd y gallwn i ymuno â hwy.

Cofiaf yn glir iawn - pan oeddwn efallai'n tynnu at chwech oed - fynd ar fy mhen fy hun i siop y dilledydd yn Heol Clifton yn y Rhath, i brynu fy siwt nofio gyntaf. Y pris tair ceiniog. Mor falch oeddwn i o'm pwrcas newydd dyma fi yn chwilio cyfle cynta i'w gwisgo.

Doedd dim ystafell ymolchi yn ein tŷ ni, felly bob nos Sadwrn, dyma Mam yn dod â'r twba sinc mawr i'r gegin a'i roi o flaen y tân, a ninnau'r plant yn aros ein tro i fynd iddo. Dyma oedd fy nghyfle i wisgo fy siwt nofio newydd a gyda thwrw mawr datgenais mewn llais clir a phendant nad awn i i'r twb heb fy siwt nofio. Fel y gallwch ddychmygu, fe barodd hyn i fy mam a'r plant eraill grechwenu, ond er hynny roeddwn i'n bendant a chan mai'r cyw melyn ola oeddwn cefais i fy ffordd. Ac adnabuwyd fi, wedi hynny, gan y teulu, fel y bachgen nad âi i'r twba heb siwt nofio.

CEINIOG Y TRO

Y dŵr agosaf y gallem ni nofio ynddo oedd y Pwll Nofio cyhoeddus yn Guildford Crescent, a'r pris am nofio oedd ceiniog, ond gan fod ceiniogau'n brin iawn roedd rhaid inni fynd naill ai i gamlas Morgannwg neu i'r afon Rhymni yn y man lle mae stâd Llanrhymni yn sefyll heddiw. Adnabuwyd y llecyn yn yr afon lle yr arferem ni nofio 'The Cellar' ond y mae'n sicr gennyf, nid clirdeb neu burdeb eiddŵr a enillodd iddo'r enw.

Y man nofio gorau ar gamlas Morgannwg oedd llain o ddŵr ym Maendy yn agos at y fan lle saif Stadiwm Maendy heddiw. Wrth gwrs, nid oedd canolfan chwaraeon yno ar y pryd, dim ond pentwr o adfeilion a oedd ar un amser yn waith gwneud briciau. Ar ymyl yr adfeilion roedd pwll mawr dwfn a oedd ar un cyfnod yn bwnc llosg ymysg pobl yr ardal a'r ddinas oherwydd i nifer o fechgyn gael eu boddi ynddo. Felly roedd hwnnw yn waharddedig i ni'r bechgyn.

Ond gadewch i ni fynd yn ôl i'r llain o ddŵr y soniais i amdano yn y paragraff diwethaf. Roedd y gamlas yn y man hwn yn lled lydan er mwyn i'r badau hirion droi o gwmpas. Gerllaw roedd ffatri gwneud-tanwydd-o-lo-mân, ac anfonwyd y cynnyrch i ddociau Caerdydd i'w allforio. Felly roedd rhaid i'r badau oedd yn dod yn ôl o'r dociau gael eu troi er mwyn iddynt wynebu'r cyfeiriad iawn at eu taith nôl Dyma oedd y man delfrydol i ni'r plant ddysgu nofio ynddo. Nid oedd y dŵr yn rhy ddwfn, ac nid oedd fawr o berygl i neb gael ei foddi, ac yn ôl arfer plant i roi ffug enw ar bob peth, fe enwyd y man hwn yn "The Turnies".

Ond roedd man gwell ac agosach i'n cartrefi i ni nofio ynddo sef llain o'r gamlas ger llaw'r Llys Barn ym Mharc Cathays, ond ni wnâi'r plismon adael llonydd inni yn y man hwnnw, ac yn aml iawn roedd rhaid i ni gasglu'n dillad mewn brys mawr a rhedeg i ffwrdd cyn gyflymed ag y gallem ni er mwyn dianc rhagddo, ac osgoi profi blas ei ffôn.

George Player

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

Cofiwch hysbysebu pob cyfarfod yn Y Dinesydd

AMGUEDDFA WERIN CYMRU

SAIN FFAGAN

Dowch i weld : Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlan Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre'r ywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru.

Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith.

Os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch cael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

MYNEDIAD: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)
Plant o dan 16 5c
Pensiynwyr yn rhad.
Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw.
Mynediad am ddim ar Ddydd Llun.
(ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

MAES PARCIO: Bysau 15c
Ceir Preifat 11c
Beiciau Modur 5c

ORIAU AGOR:
Dyddiau'r Wythnos: Ebrill, Mai, Mehefin a Medi 10.00 a.m. – 6.00 p.m.
Gorffennaf ac Awst 10.00 a.m. – 7.00 p.m.
Hydref – Mawrth 10.00 a.m. – 5.00 p.m.
Suliau: Ebrill – Medi 2.30 p.m. – 7.00 p.m.
Hydref – Mawrth 2.30 p.m. – 5.00 p.m.

Dr Ron Thomas

YMWELIAD Â HWNGARI

Bu'r Dr Ron Thomas, Pen-y-lan, a darllenydd yn Adran Gemeg U.W.I.S.T. ar ymweliad â Hwngari ddechrau mis Mehefin.

Diben ei daith oedd astudio ac ymchwilio i addysg prifysgolion y wlad ym maes Cemeg Dadansoddol. Mae gan y Cyngor Prydeinig gynllun o noddi teithiau fel hyn ac o dan y nawdd hwn y teithiodd Dr Thomas. Fe gafodd amser tra phrysur yno, yn ymweld â chynhadledd ar gyfnewid ionau a hefyd chwech o brifysgolion yn y wlad.

Fe gafodd bob cymorth gan yr awdurdodau yn Hwngari i gwblhau ei raglen, ac roedd modur a gyrrwr at ei wasanaeth bob tro yr oedd yn teithio y tu allan i Budapest. Ac er bod nifer o wyddonwyr y wlad yn medru Saesneg, fe gafodd wasanaeth cyson lladmerydd.

Yn ystod ei ymweliad, fe fu Dr Thomas yn darlithio mewn nifer o brifysgolion, a chymerodd ran mewn sawl trafodaeth ddiddorol ar rai o bynciau astrus y byd cemegol - byd ionau ac electrodau dethol.

Fe gafodd sawl llety diddorol a chysurus yn ystod ei deithiau, ond y mwyaf diddorol i gyd oedd ei lety mewn fflat gyda theulu yng nghyrion Debrecen, yn agos at y ffin â Romania. Wrth ddeffro yno yn y bore, sylwodd ar groes bren uwchben drws ei ystafell wely Roedd hyn yn gysur nid bychan iddo, yn enwedig o gofio iddo hefyd dreulio rhan o'r Saboth cynt yng nghwmni llu o addolwyr Eglwys Gadeiriol Babyddol yn Estergom. Fel Trysorydd Eglwys y Tabernacl, Caerdydd, roedd yn falch gweld yr eglwys yn gyffyrddus lawn!

Yn Eisiau

Cynorthwywr Sioplyfrau

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn siarad Cymraeg ac o bosib gyda diddordeb mewn ieithyddiaeth. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddianus ddatblygu'r adran Llyfrau Cymraeg yn y siop lyfrau ail law fyd enwog hon.

Cyflog £1500 - £2000 y flwyddyn.

Cysylltwch a

Richard Booth, Hay Castle, Hay on Wye

DALIER SYLW

Disgwylir cael deunydd golygyddol (llythyrau, newyddion o'r cymdeithasau, ysgrifau ag ati), gogyfer a'r rhifyn nesa' o'r Dinesydd erbyn Medi'r 5ed.

Anfonwch at y Golygydd - Norman Williams, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina.

Cyfraniadau a Thanysgrifiadau i'r Trysorydd - Geraint Walters, Dorwen, 29 The Rise, Llanishen.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Aled Hopkins, 55 Three Arches Avenue, Llanishen ar ennill y gystadleuaeth i gynllunio bathodyn ar gyfer Clwb y Cymro. Llongyfarchiadau hefyd i'w frawd Melfyn Hopkins a ddaeth yn ail yn yr un gystadleuaeth. Mae'r ddau'n ddisgyblion yn Ysgol Bryntaf.

NEWYDDION BRYS

Moi Parri a'i wraig yn priodi ar Awst 17eg. Croeso i bawb sydd wedi prynu anrheg. Mae Mr Parri ar y funud yn dysgu dreifio ac yn chwilio am fflat i nythu ynddo. Dymuna'r Dinesydd bob hwyl yn y dyfodol i'r ddeuddyn annwyl yma.

Nodwydd-iadol

Daeth tymor y dosbarth gwnio i ben Nos Lun, Mehefin 17eg, gyda chinio yn 'yr Ystafell Gymraeg'. Trefnwyd y dosbarth gan Ferched y Wawr, ac mae'n dyled yn fawr eleni eto i Miss Ann Ladd am ei hamynedd mawr yn ysgol Glan y Nant drwy fisoedd y Gaeaf a'r Gwanwyn. Ac roedd angen amynedd gyda rhai ohonom hefyd. Prin y gwyddwn i ar y dechrau sut i roi edau mewn nodwydd heb son am ei roi mewn peiriant gwnio. (Gol. Cadarnhawyd hyn gan ei gwr) Ond bu'r ychydig ffyddloniaid wrthi'n ddygn hyd y diwedd yn gwneud siwtiau, trowsusau, ffrogiau bach a mawr, a bu ambell wr yn ddigon ffodus i gael tei o waith llaw. Dyma'r ail flwyddyn i ni gael cyfle i wnio drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai y cawn siawns i wneud rhywbeth ychydig yn wahanol y flwyddyn nesaf. Beth am grochenwaith neu drefnu blodau, er enghraifft? Oes digon o ddiddordeb ymhlith Cymry prysur Caerdydd tybed?

Eluned Edwards

WEDIN BELS

Llongyfarchiadau i Gareth Wyn Jones (Bels) a'i wraig Eileen ar eu priodas yn ddiweddar. Athro ysgol a pheldroediwr yw Gareth a nyrs yw ei wraig. Ymgartrefant yn Llanedeyrn.

LLANBERIS v PRESTATYN

Llongyfarchiadau i John Alan Roberts o Lanberis sy'n athro yn Rhydfelen ac Eluned Rees sy'n athrawes hefyd ar briodi dro'n ol. Maent yn setlo yn ardal Pontcanna.

DIOLCH I'R DYSGWYR

Diolch o galon i Gymdeithas y Dysgwyr Caerdydd am eu cyfrani ad hael tuag at y Dinesydd (trwy ddwylo Gwilym Roberts). Gobeithio y bydd llawer mwy yn dilyn eu hesiampl.

MAES Y PLANT

Carafanio yn y Coed

Rhian Goodfellow

Mae carafan gyda ni, ac ar ddydd Sadwrn, Mehefin 22, roeddwn yn paratoi'r garafan yn barod i fynd i Braceland yn Forest of Dean. Fe aethom drwy Sir Fynwy a Raglan. Pan gyrhaeddom ni yn y gwersyll roedd bron pawb yn cael eu brecwast. Fe ddaeth Rhian Owen a Bethan i chwarae gyda fi a Meryl. Pan roeddwn yn chwarae aethom i'r coed. Ar ôl chwarae am dipyn fe aethom nôl i'r cae. Fe chwareuom wedyn nes amser cinio. Ar ôl cinio roedd rhaid paratoi ar gyfer y daith drwy'r coed. Fe welsom goed tal a blodau gwyllt. Roeddwn i yn y blaen gyda Rhian a Bethan. Roedd dadi a mami yn y cefn. Fe welsom hen ddrifft gwaith glo hefyd. O'r diwedd, fe ddaethom i'r cae. Fe gawsom bicnic fel te. Ar ôl tipyn fe gawsom gêm o rownders ac fe sgoriais i un i dîm y merched. Ar ôl chwarae mi newidies i mewn i'm trowser i fynd i'r Noson Lawen. Roeddwn yn canu "O Lili Wen Fach". Fe gawsom fwyd a diod. Ar ôl i'r Noson Lawen orffen fe aethom nôl i'r gwely. Bore Sul fe gawsom frecwast ac wedyn fe aethom i'r oedfa. Ar ôl yr oedfa roeddwn yn gallu cael diod yn y neuadd. Aethom nôl i gael cinio. Fe ddywedom ffarwel a mynd gartre.

A dyma lun o Rhian (hi sydd ar y dde) gyda i chwaer, Meryl. Mae golwg wedi-mwynhau-gwyliau ar y ddwy!

Gêm barti ardderchog

Fe fyddwch chi eisiau.....
Bloc mawr o siocled.
Rhaid ichi dynnu'r papur i ffwrdd a dyna i gyd.
Plât cinio
Cyllell a fforc
Blwch dis a dis
Llawer o'ch ffrindiau - rhai sy'n hoffi siocled
Dyma sut y mae mynd o'i chwmpas hi.
Rhowch y bloc mawr siocled ar y plat cinio gyda'r gyllell a'r fforc bob ochr iddo. Trefnwch y ffrindiau yn gylch o gwmpas y plât. Fel yr arweinydd, cymrwch y blwch a'r dis a'i ysgwyd. Taflwch y dis. Os na chawsoch chi chwech, rhowch y dis yn ôl yn y blwch a'i roi i'r ffrind sy ar eich de. Os cawsoch chi chwech, rhowch y dis yn y blwch eto a'i roi i'ch ffrind, ond ar ôl gwneud hyn, mae hawl gennych chi i fynd at y plât cinio, codi'r gyllell a'r fforc a cheisio torri darn (nad sy'n fwy nag un bloc) o siocled i'w fwyta. Ar yr un pryd, fe fydd eich ffrind oedd ar eich llaw dde yn taflu'r dis. Os llwydda i daflu chwech, rhaid i chi adael eich gwaith ar unwaith a dychwelyd i'r cylch. Tro'ch ffrind yn awr fydd trin y gyllell a'r fforc, ond rhaid iddo ef hefyd ildio'i le os llwydda rhywun arall i daflu chwech. Cofiwch, mae rhaid cadw'r bloc siocled ar y plât ac mae rhaid defnyddio cyllell a fforc a dim arall i dorri'r siocled. Rhaid defnyddio'r fforc a dim arall i drosglwyddo'r darn siocled i'r geg. Does dim hawl gan neb i fwyta darn sy'n fwy nag un bloc. Yn union y teflir chwech, rhaid i unrhyw un sy'n trin y siocled ddychwelyd i'w le, hyd yn oed os yw ar fin bwyta darn o siocled! Fe fydd y bloc yn para am sbel!!

MINI.....mini.....mini.....

Roedd Mrs Jones wedi prynu car Mini coch newydd sbon, ac roedd hi'n meddwl y byd ohono fe. Ddwy waith yr wythnos, roedd hi'n ei olchi fe, ond roedd hi'n ofalus iawn rhag crafu'r paent. Bob amser, roedd hi'n rhoi ychydig o sebon gyda'r dŵr cynnes, ond rhag ofn y gallai fod yna fân gerrig yn y dŵr, roedd hi'n rhoi'r cyfan mewn *watering can* a'i arllwys dros y car.

Un diwrnod, roedd un o athrawon Bryn-taf yn pasio Mrs Jones ac wrth ei gweld yn trin y dŵr sebon a'r *watering can*, meddai hi,

"Does dim gwerth ichi wneud hynna! Fydd y car yn tyfu dim!"

STORI DRIST.....

Hen wraig fach mewn trol a mul,
Mynd i'r capel ar fore dydd Sul.
Syrthio wnaeth y drol i'r ffos.
Cyrraedd y capel erbyn nos!

YSGOL FEITHRIN LLYSFAEN

Dechreuwyd y seithfed Ysgol Feithrin Gymraeg yn y ddinas yn Llysfaen ar ol y Pasg. Yng nghartre Mr a Mrs Cynrig Lewis y bu'r ysgol yn cyfarfod am yr hanner tymor cyntaf, ond erbyn hyn mae wedi cartrefu yn hen ysgol Llysfaen. Daw'r wyth plentyn o ardaloedd Llanishen, Cyncoed a Llanedeyrn ar fws mini bedwar bore yr wythnos.

Os hoffai unrhyw un sy a diddordeb i gefnogi mewn unrhyw fodd gael mwy o wybodaeth, cysylltwch a Tegwen Evans, 54 Fidlas Rd, Llanishen, Caerdydd. Ffôn 754559*



Enillwyr y Ddeialog (18-25 oed) yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ar y chwith Eirlys Britton ac ar y dde Eleanor Profit.

AWN I LYDAW

Yn syth wedi wythnos brysur yn yr Eisteddfod Genedlaethol, bydd cannoedd o Gymru'n croesi i Lydaw, i'r Gyngres Geltaidd. Dyma'r gynhadledd flynyddol pan ddaw cynrychiolwyr o'r chwe gwlad Geltaidd ynghyd i drafod thema arbennig. Ac y mae'r themau hyn yn amrywio, - y llynnedd yn Iwerddon 'Canu Gwerin y Gwledydd Celtaidd' oedd y testun. Eleni yn Naoned (Nantes) 'Hawliau Diwylliannol y Cenhedloedd' yw'r testun.

Ymysg y rhai o Gymru fydd yn arwain yn y trafodaethau bydd yr Athro Jac L. Williams a Mr Ioan Bowen Rees, (Clerc Cyngor Gwynedd,) ac yn diddori yn y cyngherddau, Miss Olwen Lewis (Blodau'r Ffair) ac eraill.

Dywedodd Mr Hywel D. Roberts, Ysgrifennydd Cangen Cymru o'r Gyngres wrth *Y Dinesydd* fod y Gyngres yn Llydaw bob amser yn atdyniad i'r Cymry, ac y bydd amryw o fysiau o Gymru'n teithio yno. "Bydd tri bws gan Gymdeithas yr Iaith" meddai, "un bws mini o Gaerdydd a bws arall sy'n codi rhai rhwng Bangor, Aberystwyth a Chaerdydd" £28 yw'r tal am y bws, meddai, a chyst rhyw dair punt y dydd (hanner hynny i fyfyrwyr) am aros yn hostel y Brifysgol yn Naoned. Bydd trafodaethau drwy'r dydd ar wahanol agweddau o'r testun a nosweithiau llawen, dawnsiau a chyngherddau bob nos yng Nghastell y Dugiaid.

Bydd Mr Roberts yn barod i anfon manylion pellach i bawb a enfyn amlen a stamp ato, a phwysleisia y dylai pawb sy'n mynychu'r Gyngres ymaelodi yng Nghangen Cymru (tal £1 i oedolion, 50c i ieuenctid) fel y bo ganddynt dderbyneb i'w dangos wrth fynd i wahanol gyfarfodydd y Gyngres.

Aelwyd Caerdydd

yn y Rhyl

Fe gafodd pawb o Aelwyd Caerdydd lawer iawn o hwyl a chryn diddan o lwyddiant yn Eisteddfod y Rhyl eleni dan arweiniad ein pennaeth deinamig Ian ap Dewi. Ar ôl wythnosau maith o baratoi cyrhaeddasom ein llety yn Rhuddlan yn barod i gystadlu ar ddim llai na deuddeg cystadleuaeth. Wedi buddugoliaeth ysgubol drama "Hollti Blew" gyda Pat Griffiths, Wyn Mears ac Eirlys Britton nos Fercher roedd pethau'n argoeli'n dda iawn i ni. Ein problem mwyaf oedd cyrraedd y rhagbrofion mewn pryd wedi noson yn ffair Y Rhyl, am fod rhai aelodau i fod mewn pedair neu bump rhagbrawf ar yr un pryd. Oni bai am ddycnwch a chyflymdra Ian, Mac ac Eynon yn gwibio o ysgol i ysgol gydag o leia wyth ym mhob car ni fuasem wedi cyrraedd o gwbl.

Ar ôl argyfyngau di ri fel colli gwisgoedd a chystadleuwyr daeth cynrychiolwyr cyntaf yr Aelwyd i'r llwyfan sef Eirlys Britton a ddaeth yn ail yn yr Adroddiad. Daeth ein buddugoliaeth gyntaf pan enillodd Elinor Profit ac Eirlys Britton y ddeialog, ac yn fuan wedyn daeth y Cor Merched yn drydedd. Erbyn hyn roedd yn amlwg fod gwaith caled yr wythnosau diwethaf yn talu ffordd.

Roedd dydd Sadwrn, diwrnod yr Aelwydydd yn ddiwrnod o gystadlu brwd fel arfer, ac eleni gwelwyd Aelwyd Caerdydd yn herio aelwydydd fel Treforus, Penllyn ac Amanw sydd wedi bod yn dal y blaen ers blynyddoedd. Yn y prynhawn cipiodd aelodau hŷn yr Aelwyd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Parti Cerdd Dant, a'r Cyflwyniad Llafar. Erbyn yr hwyr roedd y tyndra y tu ol i'r llwyfan yn cynyddu, ac fe welwyd Ian yn ymddangos nawr ac yn y man gyda'r newyddion diweddaraf am sefyllfa'r Aelwydydd. Cyn cystadlaethau'r corau roeddem ar y blaen am y Darian Aelwydydd, ond fe gawson ein curo ar y funud olaf pan enillodd Aelwyd y Rhyl y côr mawr, a'r Darian. Beth bynnag doeddem ni ddim yn siomedig, ond yn fwy penderfynol nag eirioed o gael côr y flwyddyn nesaf, ac ennill Tarian Aelwydydd yn Llanelli.

Roedd pedwar o aelodau'r Aelwyd yn cymryd rhan yn y seremoni cau'r Eisteddfod, ac wedi'r 'Noson Loerig' roedd yn bryd troi'n gorwelion yn ol tua'r De. Daethom adref yn y niwl a glaw Caerdydd am bump o'r gloch fore Sul wedi derbyn yn heláeth o letygarwch a thywydd braf Eisteddfodau'r Gogledd eleni eto.

Carys Evans
(Aelwyd Caerdydd)

O'R TABERNACL

Mae peth o'r hanes yn hen erbyn hyn gan imi fod yn segura yn Ysbyty'r Waun am ychydig. Diolch i bawb yno am eu gofal a'u caredigrwydd a diolch am gael cerdded allan oddi yno. Un peth a'm tarawodd - trueni nad oes yno wasanaeth yn yr iaith Gymraeg. Mae yno lawer fyddai'n cael cysur wrth glywed y Gymraeg.

Nid yw'r croeso'n llai cynnes am ei fod yn hwyr. Croeso i Iona Heledd chwaer fach i Geran, Meuryn ac Elena. Llongyfarchiadau i'r rhieni balch - Mr a Mrs Colin Rees ac i Taid a Nain Mr a Mrs Arwel Hughes. Croeso i Geraint John brawd i Lisa. Llongyfarchiadau i'w rhieni balch hwy hefyd Mr a Mrs Owain Arwel Hughes ac i Taid a Nain - Mr a Mrs Arwel Hughes. Croeso hefyd i Mari Arwel a ddaeth i lonni calonnau Dr a Mrs Ieuan Hughes (Canada) Llongyfarchiadau i Taid a Nain - pwy ond Mr a Mrs Arwel Hughes ac i Mamgu a Tadcu, Mr a Mrs Edgar Davies, Rhiwbeina.

Dymuniadau gorau i Mr a Mrs McCarthy (Elizabeth Williams) ar eu priodas.

Dymuniadau gorau i Gaenor (Thomas) ac Adrian (Taffinder) ar eu dyweddiad. Llongyfarchiadau i Nia merch y Barnwr Dewi a Mrs Powell ar ennill ohoni y radd gyntaf mewn hanes. Pob dymuniad da i Nia wrth fynd yn awr i Gaergrawnt i astudio'r gyfraith.

Mae Llyr Gwyndaf wedi gwella'n llwyr ar ol triniaeth lawfeddygol ac erbyn hyn yn mwynhau gwyliau yn y Llychlyn.

Mae Pwyllgor o'r Tabernacl wedi rhoi ei fendith i gôr unedig o gapeli Cymraeg y ddinas. Nawr te bois, bant a'r cart.

Gair o ffarwel i Miss Gwen Aaron ar ei hymadawiad a Chaerdydd. Byddwn yn gweld ei heisiau yn y Tabernacl. Pob dymuniad da iddi wrth ymgymryd a swydd newydd yn Aberystwyth.

Gair arall o longyfarch i'r Golygydd am ffurf newydd Y Dinesydd. Mae' reit handi nawr i ddarllen yn y gwely.

COLOFN SBECTOL SIAN

DAU FARC

Un gwael ydw i wedi bod am gystadlu erioed- byth yn gorffen croesair Y Cymro a dim syniad hefo cwstadleuaeth Hywel Gwynfryn chwaith. Felly doedd dim amdani ond troi ngorwelion at Faes y Plant yn y Dinesydd mis Mehefin - pawb a'i safon ynte.

Ond och dim llwyddiant yma chwaith. Methu'n glir a gweld sut y ceid Treforus yn ateb o'r anagram SETHROFUR. Tric budr oedd rhoi'r H yna i fewn. Roeddwn yn sicr mai'r ateb i'r cwestiwn 'Pa anifail all weld y tu ol heb droi ei ben? oedd fy hen athro Hanes. 'Got eyes in the back of my head' arferai floeddio. Cefais Syr Ifan yn gywir, ond roeddwn i'n siwr mai Adda ag Efa ddyfeisiodd y sgriw gyntaf - Bwm Bwm.

DWY IAITH

Roeddwn yn falch o glywed Mr John Rowley yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith y Mudiad Ysgolion Meithrin - gosod sylfeini cadarn i'r Gymraeg ag ati. Beth sydd ganddo i'w ddweud am yr hysbyseb hwn a ymddangosodd yn ein 'papur cenedlaethol' yn ddiweddar tybed?

DAU BAPUR

Daeth copi o'r papur newydd sbon 'Roath' (brawd i'r Wenallt) drwy'r drws acw yn ddiweddar. Bwriad 'Roath' yn ol y Golygydd yw darparu papur newydd cymdogol i'r ardal. Mae'r copi cyntaf yn llawn o erthyglau newyddion ac hanesion bach difyr iawn. Sonia Owen John Thomas am draddodiad Cymreig yr ardal ac yn cyfeirio at y ffaith mai Heol Plwca y gelwid City Rd, a Heol Merthyr oedd Albany Rd tua 100 mlynedd yn ol. Mae darllen colofnau 'Roath' yn agoriad llygad i'r gwaith aruthrol a wna Phil Richards yn yr ardal. Diolch yn fawr.

DAU DDIWRNOD

Hysbyseb yn Swyddfa'r Post - 'Be a Postman, no two days are the same'

Plat y blwch post wedi diflannu heddiw, Polifilla yn ei dwll clo yfory. Gwyliau hapus a gwyliwch gi drws nesa'.

CYWIRIAD

Cyngor Celfyddydau Cymru roddodd gymorth ariannol tuag at y llyfr a gyhoeddwyd gan Wasg y Sir, y Bala, y soniwyd amdano yn rhifyn Mehefin Y Dinesydd. Bydd y llyfr yn cynnwys nifer o o ysgrifau portread a ymddangosodd yn y Faner dros y misoedd diweddar.

SECRETARY TO FEATURES AND DRAMA PRODUCER

Thorough knowledge of Welsh essential Ref. No. 74.SC.597.

"No comment" mae'n debyg.

TRYC AR DÂN

(Fis yn ôl bu Stewart Jones sef Ifas y Tryc, a minnau yn Neuadd Pontgarreg fel gŵyr gwadd ar y rhaglen Penigamp. Y Noson honno roeddem yn aros yn yr un ty ym Mhontrhydygroes. Noson i'w chofio - dyma'r hanes).

Un noson fythgofiadwy
Aeth Dyn y Tryc a fi
I filej hôl Pontgarreg
At yr hwnna Bi Bi Si

Ma' Marri o Langeitho
A Tydfor, Cassie, Dic
A hwnna Robin Wms.
Yn giang o bobol slic.

Ar ol i'r cwbwl orffen
Medda Stiwart wrtha i
"Wyti'n aros mewn hotel fawr grand
Gest hows ne B + B?"

"Wel, nacdw Stiwart, fachgian
Mewn ty "Mhontrhydygroes"
"Oes na le i mi rhen Gwynfryn?"
A medda finna "Oes".

A dyma yrru ynno
A chyrraedd yn y man
Y fi mewn Traiymff Herald
A Stiwart yn tryc wan

Mi gysgais i a dyn y tryc
Yn sownd. Wel dyna'r drwg
Oherwydd am tua tri o'r gloch
'Roedd y lle yn llawn o fwg!

Mi redais lawr y grisia
I freichia Stiwart Jones
Golygfa fythgofiadwy -
Dyn tryc mewn par o drons!

Y dillad gwlau yn llosgi
a'r tan fel machlud haul
A medda Stiwart gyda hyn
"Fantastig o dro gwael"

Dwy gandylwic John Watkin
A blanced - wedi mynd
Y fi 'di llosgi'r dillad
A chdi di colli ffrind!

A'r noson honno gwelais
A hynny ngolau'r fflam
Rhyw olwg anghyffredin
Ar un o fets Wil Sam.

Hywel Gwynfryn

GWESTY PLAS MAENAN

Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

* "DIWEDYDD". Noson draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
* YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwen.
* BARIAU cyhoeddus a golygfeydd godidog o Ddyffryn Conwy.
* POB LLOFT gyda ystafell ymolchi, breifat, ffon, teledu, offer gwneud te etc.
* CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
* CYMERADWYWYD gan Ifas y Tryc ac eraill o gewri'r genedl!

Ffôn: DOLGARROG 232

CYNGERDD AELWYD CAERDYDD

Cynhaliwyd noson o Gyngerdd a Drama (un act) yng Nganolfan yr Urdd ar Nos Iau, Mehefin 27. Cynhyrchiad Aelwyd Caerdydd oedd y rhaglen i gyd, ac yn gynwysiedig roedd eitemau a enillodd wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Roedd safon uchel iawn ym mhob perfformiad. Y rhai a gymerodd ran oedd Parti Cerdd Dant yr Aelwyd, Elaenor Profit a Eirlys Britton (Y Ddeialog), Parti Cyflwyniad Llafar, Eirlys Britton yn adrodd, Cor Merched yr Aelwyd, Grwp Pop a'r Cwmni Dawnsio Gwerin.

Perfformiwyd y Ddrama fer 'Hollti Blew' i'r un safon uchel yn yr ail hanner gan Pat Griffiths, Wyn Mears a Eirlys Britton.

Roedd y noson o dan arweiniad cymwys Euryn Ogwen.

Aeth elw ariannol y noson at yr Aelwyd a'r DINESYDD.

SYMUD

Dymuniadau gorau i Clive ac Eleri Betts, Aled a Catrin ar symud o Gelli Deg, Rhiwbeina i Afallon. Llwyn Eithin, Caerffili i fyw, ac i Clive wrth symud maes newyddiaduraeth o'r Echo i'r Western Mail.

Carafanwyr Cymru

Daeth cwmni diddan o garafanwyr ynghyd yn Fforest Ddena ar ddiwedd Mehefin, - y rhan fwyaf yn deuluoedd o Gaerdydd, a dau deulu o Alltyblaca a Llanddarog. Bu'r criw, a'r lliaws plant yn dilyn Bob ac Ann Roberts, Radyr (trefnwyr y Rali) trwy lwybrau'r coed ar un o'r "teithiau natur" ar y p'nawn Sadwrn, ac yn y nos llogwyd neuadd fach New Bignor ar gyfer y Noson Lawen. Ni fu trawstiau'r neuadd honno erioed yn atseinio i'r fath hwyl - profiad dihafal oedd gweld Emyr ac Islwyn Jenkins Howard Goodfellow Gwilym ap Robert a Stan Jones, Dyfri a W.J. Jones, Rhys Morgan a Vernon Llewelyn, Rowland Owen, Geraint Evans a Brian Jones, Howell Williams, Gwynn Jones - ac Wncwl Tom Cobley an' all - yn efelychu milwyr y brenin mawr Caradog yn dwad dros y bryn! Y bore Sul canlynol, cafwyd gwasanaeth bach hyfryd yn yr un neuadd yng ngofal Ann Roberts, Howard Goodfellow a'r plant, cyn i bawb droi trwyn ei gerbyd yn ol i gyffiniau'r ddinas. Trist cefnu ar y wlad hardd, goediog, ond roedd blas mewn edrych ymlaen at y Rali Ferlota yn Nhregaron cyn pen mis.

Bu Barry John yn treio'i law ar chwarae bowls yn ddiweddar yn ystod darpariaethau ar gyfer twrnament dri diwrnod a ddangosir ar HTV yn ystod y mis nesaf. 'Roedd Barry gyda thim HTV Cymru yn y Clwb Bowls yng Ngerddi Soffia lle bydd y twrnament yn cael ei gynnal yn nes ymlaen.

CYNLLUNIO AC ARGRAFFU
PAPURAU NEWYDD
CYLCHGRONNAU
RHAGLENNI
TAFLENNI
LLYFRAU
bd
Cyhoeddwyr Cleglen Cyf
55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa
Caerdydd Cymru CF1 8LW

ADRAN YR URDD
Gwaelod y Garth

Nos Fercher Mehefin 19fed cynhaliwyd ffair lwyddiannus dros ben gan blant Adran yr Urdd yn Gwaelod y Garth. Ar ol Misoedd o gwrdd bob Nos Fercher i siarad a pharatoi, braf oedd gweld Festri Bethlehem yn llawn o stondinau wedi eu addurno a nwyddau o bob math. Cawsom awr dda o hwyl a sbri (yn enwedig ar y stondin pysgod aur). Mawr yw ein diolch i rai o ffyddloniaid Bethlehem a ffrindiau'r achos am ddod i gefnogi'r plant yn eu brwdfrydedd yn y fenter hon. Codwyd y swm ardderchog o £33 ac y mae'r Adran wedi penderfynu rhoi cyfraniadau tuag at yr achosion canlynol:

1. Cronfa Bangladesh. 2. Yr Ysgol Feithrin yn Ffynnon Taf. 3. Cymdeithas yr Henoed Gwaelod y Garth. 4. Y Llyfrgell Gymraeg. G.Y.G. 5. Yr Ysgol Spastic Craig y Parc, Pentyrch.

Ar y 15fed o Orffennaf (noson olaf y tymor yma) bydd yr Adran yn ymuno gyda Adran Rhiwbeina am wibdaith i Gwm Carn.

CEWRI'R FRO

gan Ithel Davies

David Williams o Watford

Er fod David Williams o Watford fel Dr Richard Price yn hannu o Forgannwg ac er fod eu tueddiadau meddyliol yn rhedeg i'r un cyfeiriad, a siarad yn frâs, ac er nad oedd ond pymtheng mlynedd o wahaniaeth yn eu hoedran, nid ymddengys iddynt gysylltu â'i gilydd o gwbl. Ac er eu bod ill dau yn tynnu eu hadnoddau yn frâs o'r un ffynhonellau nid oes dystiolaeth ddarfod i'r naill ddylanwadu dim ar y llall. Eithr yn eu hoes a'u cyfnod yr oedd y ddau fel meddylwyr yn y rheng flaenaf.

Ganed David Williams yn Waunwaelod, Watford, ar bwys capel Watford fel yr elych ar hyd yr hen ffordd o Gaerffili i Gaerdydd, yn y flwyddyn 1738. Trowyd y tŷ yn dafarn wedi hynny, y Carpenters Arms. Ac nid yw'r Carpenters Arms yno bellach. Mab Llwynbarcud, Llanhari oedd ei dad, a fu farw pan oedd David Williams yn ifanc iawn. Yn ol yr arfer a fu unwaith ar enwau teuluoedd yng Nghymru William David oedd enw ei dad, ac un o ddychweledigion Howel Harris. Y camau cyntaf yn addysg D.W. oedd ar law un John Smith, Ficer Eglwysilan a David Williams, gweinidog Watford y pryd hwnnw. Yn "Cymru" Owen Jones cymysgwyd y ddau a thybio mai rhyw David Williams o Aberteifi ydoedd y David Williams hwn. Aeth D.W. wedyn i academi Caerfyrddin lle bu'n fyfyriwr o 1753 hyd 1757. Ymddengys fod yr academi hon yn ferw o anuniongrededd. A barnu oddi wrth ei yrfa fe gafodd hyn ddylanwad mawr ar D.W. Er hynny i'r weinidogaeth yr aeth ef ac yn gyntaf i eglwys anghydffurfiol yn Frome, Gwlad yr Haf yn 1758. Bu yno hyd 1761. Gadawodd yno oherwydd nad oedd ei syniadau yn dderbyniol gan yr eglwys ac aeth i Exeter. Bu yno hyd 1769. Ffraeodd a'r aelodau yno wedyn oherwydd ei anuniongrededd crefyddol. Symudodd o Exeter i ofal eglwys fechan yn Highgate, Llundain a gweinidogaethodd yno hyd 1773. Yn y flwyddyn honno gadawodd y weinidogaeth oherwydd, medd y Bywgraffiadur Cymreig, fod y cyflog yn annigonol ond yn ôl y Geiriadur Bywgraffyddol Cenedlaethol (D.N.B.) oherwydd dichell rhyw fonesig.

Yn union yn y fan yna y dechreuodd ar ei waith mawr fel athronydd a gweledydd gwleidyddol a chymdeithasol. Ar ol ymadael o'r eglwys, priododd a merch ifanc a'i henw Mary Emilia, merch ifanc heb drâs na modd ond aeth D.W. rhagddo ac agorodd ysgol breswyl gostus yn Lawrence Street, Chelsea. Ond pan fu farw ei wraig fis Rhagfyr 1774 rhoes yr ysgol i fyny. Y flwyddyn honno, hefyd, cyhoeddodd ei "Bregethau yn bennaf ar Ragrith Crefyddol." Aeth yntau yn ei ofid yn ôl i Gymru, i Gaerffili lle arhosodd ysbaid. Diau mai pan oedd ei wraig yn fyw, ym 1874, y bu Benjamin Franklin yn aros yn ei dŷ ac ef ar ffo rhag y rhai a oedd yn ei erlid, canys nid oedd yn dderbyniol yn Lloegr ac yn sicr ddim yn Llundain oherwydd gwrthryfel y Taleithiau yn yr Amerig, a Benjamin Franklin ym mlaen y frwydr fawr honno ac yn un o'i chynghorwyr amlycaf. Yna ym mis Ebrill 1776 agorodd gapel arall yn Margaret Street, Cavendish Square. Y flwyddyn honno, hefyd, ac yn amlwg i amcanion ei wasanaethau yn yr eglwys yn Margaret Street y cyhoeddodd ei waith mawr pwysig cyntaf, sef, "Ffurf-wasanaeth ar Egwyddorion Cyffredinol Crefydd a Moesoldeb." Dengys hwn gryfed oedd ei ymlyniad wrth Undodiaeth canys drwy'r holl weddiau ac atebion nid oes son am Iesu Grist o gwbl. Gelwid ef yn "Offeiriad Natur." Cyfieithwyd ef i'r Almaeneg gan Schoenemann a rhoddwyd argraffiad ohono i Frederic Fawr o Brwsia ac i Voltaire. Y mae'n amlwg ddarfod i Rousseau hefyd gael argraffiad o'r llyfr hwn canys fe anfonodd Rousseau drwy gyfaill, ni ddywedir pwy oedd, i D.W. neges, "Dywedwch wrth Williams," medd efe, "ei fod yn galondid mawr i mi ei fod wedi sylweddoli un o'm dymuniadau uchaf - a fy mod i yn un o'i ddisgyblion mwyaf ymroddedig." Cafodd lythyr i'r un perwyl oddi wrth Voltaire yntau, a ddywed, "Yr wyf a'm holl galon yn ddilynnydd ichwi, ac yn un o'ch edmygwyr a gyd â pharch mawr."

David Williams o Watford

Llun drwy garedigrwydd Llyfrgell Dinas Caerdydd.

Cyhoeddasai, fodd bynnag, cyn hyn rai trafodaethau a'i dygodd i'r amlwg, sef, ei Lythyr Agored at David Garrick y theatrydd yn 1770 oherwydd triniaeth hwnnw o'r actor Gwyddelig amlwg Arthur Mossop a wedyn ym 1773 "Yr Athronydd mewn tair Ymgom," a'i "Bregethau, yn bennaf ar Ragrith Crefyddol" a "Thraethodau ar Addoliad Cyhoeddus, Gwladgarwch a Chynlluniau at Ddiwygiad." Ond o 1774 ymlaen y cawn ef yn troi allan ei weithiau mawr. Darlithiai a phregethai yn gyson ac yn null darlithiau y cyhoeddodd i'r byd ei syniadau ar wleidyddiaeth, addysg a chrefydd yn bennaf. Ym 1779 cyhoeddodd lyfr ar "Natur a Ffiniau Rhydd-did Meddwl." Ar yr un adeg cyfieithodd ddau o weithiau Voltaire i'r Saesneg, sef, "Traethawd ar Oddefgarwch," a'i "Athronydd Annysgedig," ynghyda "Lladmerydd" gan Beccaria. Ym 1780 cyhoeddodd ei "Gynllun o Gymdeithasfeydd ar egwyddorion Cyfansoddiadol." Yna ym 1782 ei brif gyfraniad yn ddiau a gyfieithwyd i'r Ffrangeg gan Brissot ac a fu'n sylfaen i gyfres o ddarlithiau ar y testun, sef, "Llythyrau ar Rydd-did Gwleidyddol," ac ym 1785 ei "Llythyrau ynglŷn ag Addysg," a bu yntau yn sylfaen cyfres o ddarlithiau. A chyhoeddodd y darlithiau ar y ddau destun yna y naill a'r llall ym 1789. Y mae ei ddarlithiau ar Addysg yn dair cyfrol. Y flwyddyn cynt, 1788 cyhoeddodd lyfr dychanol ar y testun "Atgofion Brenhinol am Dro i Cheltenham," ac ym 1790 dyma draethawd arall ar y testun, "Gwersi i Dywysog Ifanc." Gweriniaethwr oedd D.W. ac yr oedd ei ddiddordeb yn y Chwyldro yn yr Amerig ac wedi hynny yn y Chwyldro yn Ffrainc wrth ei fodd. Gofod a ballai i mi fynd i fanylu ar ei weithiau mawr ar Addysg a Rhydd-did Gwleidyddol. Yr oedd ym mhell o flaen ei oes onid, yn wir, o flaen ein hoes swrth ni. Y mae cyfle i'r neb a'i mynno ddarllen ac astudio ei weithiau o'r bron yn Llyfrgell Rydd Caerdydd.

(Parhad yn y rhifyn nesaf)

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd. Ffôn: 396262.